# Cyngor Cymuned Llanrug

## Polisi Hyfforddiant y Cyngor

**Cefndir**

Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (adran 67) yn nodi mae'n hanfodol i'r cyngor wneud a cyhoeddi cynllun hyfforddi sy’n nodi ei gynigion mewn perthynas a darparu hyfforddiant ar gyfer ei aelodau a staff. Fe ddylai'r cynllun hyfforddi, nodi’r hyn y mae’n bwriadu ei wneud i adnabod ac mynd i’r afael ag anghenion hyfforddi ei gynghorwyr a’i staff.

Pwrpas y cynllun hyfforddi yw sicrhau bod cynghorwyr a staff ar y cyd yn meddu ar y wybodaeth a'r ymwybyddiaeth sydd eu hangen er mwyn i'r cyngor weithredu'n effeithiol. Nid oes angen i bob cynghorydd a staff fod wedi derbyn yr un hyfforddiant a datblygu'r un arbenigedd.

Rhaid rhoi cynllun hyfforddi newydd ar waith ar ôl pob etholiad cyffredin o gynghorwyr cymuned i adlewyrchu'r anghenion hyfforddi sy'n deillio o newidiadau i aelodaeth y cyngor ac i ddarparu ar gyfer ethol cynghorwyr newydd. Dyma gynllun hyfforddi cyntaf y cyngor ond o hyn ymlaen bydd yn adolygu’r cynllun o bryd i’w gilydd i’w gadw’n gyfredol ac yn berthnasol.

O ran staff y cyngor, mae sgyrsiau blynyddol yn nodi cyfleoedd hyfforddi unigol yn barhaus. Bydd asesiad hyfforddiant cychwynnol yn cael ei wneud o'r sgiliau hanfodol sydd eu hangen wrth bennu blaenoriaethau hyfforddi ar gyfer cynghorwyr, ac a yw'r cyngor yn teimlo bod digon o sylw a dyfnder ar draws y cyngor er mwyn iddo weithredu'n effeithiol wrth symud ymlaen o fis Mai 2022. Er gwaethaf hyn, mae meysydd craidd i fynd i'r afael â hwy er mwyn sicrhau bod gan y cyngor sgiliau a dealltwriaeth ddigonol Mae'r rhain yn:

- Hyfforddiant sylfaenol i bob cynghorydd newydd;
- Hyfforddiant ar Y Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau awdurdodau lleol yng Nghymru;
- Hyfforddiant ar rheolaeth ariannol a llywodraethu.

**1. Gwerthuso ac adolygu hyfforddiant**

Bydd yr holl hyfforddiant yr ymgymerir ag ef yn cael ei werthuso gan y cyngor i fesur ei berthnasedd, ei gynnwys a'i briodoldeb. Bydd unrhyw anghenion hyfforddiant ychwanegol a amlygir o ganlyniad yn cael eu cynnwys yn y broses adnabod hyfforddiant.

Fed adolygir hyfforddiant yng ngoleuni newidiadau i ddeddfwriaeth neu unrhyw reoliadau sy'n berthnasol i'r Cyngor. Bydd hyn yn cynnwys gofynion ar gyfer

cymwysterau newydd; offer newydd; cwynion a dderbyniwyd; digwyddiadau sy'n amlygu anghenion hyfforddi; ceisiadau gan y clerc, cynghorwyr neu wirfoddolwyr.

Yn ogystal â'r meysydd hyn, bydd y cyngor am ystyried a oes heriau a chyfleoedd newydd y gallai ddymuno eu harchwilio, er enghraifft, y rhai a gynigir gan y Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol. Os felly, efallai y bydd yn penderfynu bod angen hyfforddiant ar sgiliau newydd i gynghorwyr a staff yn y dyfodol ar ôl cyhoeddi'r cynllun hyfforddi cyntaf hwn.

Mae'r cyngor wedi cymeradwyo cyhoeddi'r cynllun hyfforddi hwn ar ôl nodi ei ofynion cychwynnol i symud y cyngor yn ei flaen yn dilyn yr etholiadau cyffredin llywodraeth leol ar 5 Mai 2022. Mae'r cynllun yn giplun o'r gofynion hyfforddi ar y pwynt hwn a bydd yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru o bryd i'w gilydd dros y pum mlynedd nesaf ac yn arwain hyd at y set nesaf o etholiadau cyffredin llywodraeth leol a gynlluniwyd ar gyfer Mai 2027.

Bydd y Clerc yn cadw cofnod o hyfforddiant a fynychwyd gan ei gynghorwyr.

O ran cynlluniau cychwynnol y cyngor, nodir y rhain fel a ganlyn, sydd yn gyrsiau hyfforddi a ddarperir drwy Un Llais Cymru. Mae’n bosib y bydd darparwyr eraill yn darparu cyrsiau hyfforddi yn ogystal.

**Cynghorwyr newydd**

Cynefino gan y Clerc, gyda chefnogaeth y Cadeirydd, a llofnodi'r Cod Ymddygiad a Datgan Buddiannau cyn y cyfarfod cyntaf.

**Modiwlau i'w cwblhau o fewn blwyddyn**

Y Cyngor (modiwl 1)
Y Cynghorydd (modiwl 2)
Cyfarfod y Cyngor (modiwl 5)
Cod Ymddygiad (modiwl 9)

Cynghorwyr wedi’u hailethol (argymhellir bob tymor yn y swydd)

Cod Ymddygiad

Rhaglen dreigl o hyfforddiant gloywi yn unol ag aelodaeth y Pwyllgor

**Pwyllgorau**

Argymhellir fod aelodau’r pwyllgorau yma yn mynychu'r hyfforddiant a nodir isod o fewn 3 mis i gael ei ethol i'r pwyllgor oni bai bod gan yr aelodau gymwysterau, hyfforddiant neu brofiad blaenorol yn y pwnc.

**Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau**

Cyllid Llywodraeth Leol (Modiwl 6)

Deall Cyllid Llywodraeth Leol – Uwch (Modiwl 21)

Y Cyngor fel Cyflogwr (Modiwl 3)

Rheoli Eich Staff (Modiwl 18)

Cydraddoldeb ac Amrywiaeth (Modiwl 14)

**Pwyllgor Hamdden**

Iechyd a Diogelwch (Modiwl 7)

**Pwyllgor y Fynwent**

Unrhyw gwrs perthnasol gynhelir gan yr ICCM neu SLCC

**Pwyllgor Bwyd a Llesiant**

Cwrs Tystysgrif Glendid Bwyd (Lefel 2)

**Cadeirydd / Is-gadeirydd**

Sgiliau Cadeirio Cadeiryddion / Is-gadeiryddion (Modiwl 10)

**Hyfforddiant dewisol i bob Cynghorydd**

Deall y Gyfraith (Modiwl 4)

Rheoli Gwybodaeth (Modiwl 15)

Cyflwyniad i Ymgysylltiad Cymunedol (Modiwl 8)

Cydraddoldeb ac Amrywiaeth (Modiwl 14)

Defnyddio TG, Gwefannau a Chyfryngau Cymdeithasol (Modiwl 16 )

**Clerc/Swyddog Cyllid Cyfrifol**

a) Sesiynau cynefino sy’n esbonio hanfod y Clerc, megis mynychu cwrs hyfforddi ‘Clercod Newydd’, neu debyg - o fewn tri mis i’r dyddiad y cânt eu cyflogi. Noder fod y clerc presennol yn gweithredu fel mentor ar gyfer clercod newydd dros Wynedd ac Ynys Môn.

b) Darparu Pecyn Gwybodaeth i Gynghorwyr. Bydd y pecyn yn cynnwys copïau o 'Arweiniad y Cynghorydd Da', Rheolau Sefydlog, Rheoliadau Ariannol, Cod Ymddygiad a rhestr o bolisïau'r Cyngor, ynghyd ag unrhyw wybodaeth arall a ystyrir yn berthnasol - mae hyn i fod yn berthnasol. Darparu o fewn saith diwrnod i'r dyddiad y'u cyflogir.

c) Ennill y Dystysgrif mewn Gweinyddu Cynghorau Lleol (CiLCA) o fewn tri deg mis i'r penodiad. Mae hwn yn amod cyflogaeth.

d) Unrhyw hyfforddiant arall sy'n berthnasol i gyflawni eu dyletswyddau'n hyfedr megis y Ddeddf Diogelu Data, Pwerau Cyfreithiol, Cyllid a deall y system gynllunio, a nodir trwy anghenion hyfforddi ac asesiadau rheolaidd – o fewn tri (3) mis i nodi'r angen.

e) Mynychu cyrsiau hyfforddi perthnasol, cynadleddau a/neu gyfarfodydd lleol cyrff allanol megis Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol (CLlLC) a Chymdeithas Genedlaethol y Cynghorau Lleol (NALC).

Bydd y Cyngor yn talu costau'r holl hyfforddiant a gymeradwyir ymlaen llaw neu gyfarfodydd a fynychwyd, gan gynnwys costau teithio a pharcio dan sylw. Bydd y Cyngor yn talu am danysgrifiadau a gymeradwyir ymlaen llaw i gyhoeddiadau a gwasanaethau cynghori perthnasol, gan gynnwys prynu'r llawlyfr cymeradwy, Charles Arnold-Baker, Gweinyddiaeth Cynghorau Lleol.

**2. Anghenion hyfforddi wedi'u nodi**

Bydd gofynion hyfforddi ar gyfer Cynghorwyr yn barhaus ond fel arfer byddant yn cael eu nodi gan y Cynghorwyr, y Cadeirydd a / neu'r Clerc gyda chyfleoedd i fynychu cyrsiau yn cael eu harchwilio gan y Clerc a'u dwyn i sylw'r Cyngor llawn.

Yn flynyddol bydd y Cyngor yn adolygu anghenion hyfforddi'r Cynghorwyr a Chlerc a cyfarfod y Cyngor Cymuned yn ffurfiol.

Bydd anghenion hyfforddi'r Clerc yn cael eu nodi i ddechrau drwy'r broses recriwtio ar gyfer Clercod newydd, gan gynnwys y ffurflen gais a'r cyfweliad, ac yna drwy drafodaethau ffurfiol ac anffurfiol a gwerthusiadau staff blynyddol.

Disgwylir i'r Clerc gael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau yn y sector ac amlygu i'r Cyngor unrhyw hyfforddiant a chefnogaeth sydd eu hangen.

**3. Hyfforddiant adnoddau**

Y cyngor sy'n talu costau hyfforddi, er efallai y bydd cynlluniau bwrsariaeth i gynghorwyr ar gael gan Lywodraeth Cymru i sybsideiddio'r costau hyn.

Yn flynyddol bydd dyraniad yn cael ei wneud yn y gyllideb, bob blwyddyn yn ôl yr angen, i alluogi hyfforddiant a datblygiad angenrheidiol.

I gael rhagor o wybodaeth am yr hyn y mae pob modiwl yn ei gwmpasu dylech gysylltu a'r clerc.